CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/06/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Iwan Evans | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Carys Roberts | Caren Jones | Catrin Roberts | Gito Williams | Gruffudd Griffiths |
| Lleucu Jones | Rhian Sanson | Pat Humphreys (Clerc) | | |

Croesawyd yr aelod newydd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhys Llewelyn a Wil Lake.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 13/05/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Carys Roberts
   **Materion yn codi o'r cofodion:**
   1. Cafodd yr aelodau eu atgoffa o'r gwasanaeth dad-orchuddio plac Dr Herbert Rees Wilson ac fe fydd y Clerc yn anfon ebost i bawb ar y dydd Llun cyn y gwasanaeth. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd hi yn cydlynu y digwyddiad ac yn dweud gair ar y cychwyn ac fe fydd rhywun yn tynnu llun ar gyfer y Llanw Llŷn.
   2. Cafwydd cadarnhad o'r swm sydd ei angen ar gyfer ail wynebu'r llwybr sydd yn mynd o Lôn Pwll William i Lôn Penrallt sef £300. Mae'r aelodau eisiau gwybod faint o dunelli o gerrig fydd huna er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn cael gwerth eu arian felly mae aelod lleol Morfa Nefyn am ofyn ac am adrodd nôl i'r pwyllgor nesaf.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Blodau Edern –** Gruffydd Williams & Clerc
      Mae aelod lleol Nefyn yn awyddus i gynnig cymorth i aelod Edern i nôl y blodau o Tyddyn Sachau a helpu i blannu, mae hi yn ddiolchgar iawn o'r cynnig. Cynnigiodd rhai o'r aelodau eraill i helpu hefyd.
   2. **Gwaith yn Bryn Mynach a Bro Gwylwyr –** Gruffydd Williams
      Cafwyd cais gan rai o drigolion Nefyn i wneud ychydig o waith ar y llwybr sydd yn mynd o Bro Gwylwyr i'r Ddôl, mae angen rhoi 'post a rêl' mewn mannau ac ychydig o estyniad i'r beipan gan fod dŵr yn arllwys o'r hen lyn ar frys er mwyn diogelwch. Hefyd mae angen estyniad i'r bont sydd yn Bryn Mynach.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo'r contractwr i gael dyfynbris a gan fod y gwaith angen cael ei wneud ar frys mae hi am yrru'r dyfynbris i bawb ar ebost i'w basio cyn gynted a phosibl.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Mared Llywelyn Williams

3. **Traeth Morfa Nefyn –** Lleucu Jones
Roedd erthygl ar y we gan 'Surfers Against Sewage' yn rhybuddio bod 22 o draethau yng Nghymru ddim yn saff i nofio ynddynt yr wythnos diwethaf oherwydd gorlifoedd carthffosiaeth i'r môr. Mae hyn yn peri gofid mawr gan nad oes rhagrybudd o hyn, mae'n broblem enfawr a allai amharu ar iechyd y cyhoedd sy'n nofio yn y môr.
Penderfyniad: mae un o aelodau Nefyn am ysgrifennu llythyr ac am ei anfon i'r clerc iddi hi wedyn ei yrru ymlaen i Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ac anfon copi i Mabon ap Gwynfor, Liz Saville Roberts, Dafydd Gibbard a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
4. **Defnyddio Siop Siarad ar gyfer cyfarfodydd AA –** Gruffydd Williams
Cais yw hwn i gael defnyddio Siop Siarad fel man cyfarfod.
Penderfyniad: rhoi'r defnydd o Siop Siarad am ddim iddynt.
Cynnig: Gareth Jones Eilio: Iwan Evans

5. **Aelodaeth Is-bwyllgorau**
Gan fod yna aelodau newydd ar CTN fe fydd yn rhaid diweddaru aelodaeth yr is-bwyllgorau, dim ond un o'r aelodau newydd sydd yn bresennol heno ac mae o wedi cytuno i fod ar dri o'r is-bwyllgorau felly mae'r clerc am gysylltu hefo'r aelod arall i ofyn os ydyw yn fodlon cymeryd lle ei gyn aelod ar dri o'r is-bwyllgorau. Mae'r clerc am anfon rhestr diwygiedig o aelodaeth yr is-bwyllgorau i bawb.

6. **Lwfansau aelodau –** Clerc
Mae'n amser i bob aelod arwyddo'r Lwfansau eto eleni. Mae'r clerc wedi anfon y ffurflen i bawb hefo'r agenda felly mae'n bosibl ei llenwi i mewn a'i hafnon yn ôl i'r clerc drwy ebost, os oes unrhyw un yn cael trafferth mae'r clerc yn fodlon mynd a copi papur iddynt.

7. **Adolygu'r Adroddiad Bioamrywiaeth –** Clerc
Cafodd yr adroddiad ei yrru allan i bawb hefo'r agenda ac aethpwyd drwyddo yn y cyfarfod.
Penderfyniad: Derbyniwyd yr adroddiad yn gywir.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Gruffudd Griffiths

8. **Clybiau Ieuenctid Cymunedol –** ebost Steffan Williams
Derbyniwyd ebost gan Steffan Williams yn cynnig y cyfle i ail sefydlu y Clwb Ieuenctid yn Nefyn. Rhestrwyd y costau am y flwyddyn yn yr ebost a gan nad oes swm wedi ei neilltuo am redeg Clwb o'r fath ar y gyllideb fe fydd yn rhaid bod yn ofalus.
Penderfyniad: gwahodd Steffan i'r pwyllgor nesaf i drafod y mater.
Cynnig: Gareth Jones Eilio: Arfon Hughes

9. **Hyfforddiant Cynghorwyr –** Arfon Hughes
   Yn dilyn ebyst sydd yn cael eu gyrru yn fisol i bawb gan y clerc yn rhestru'r cyrsiau sydd yn cael eu cynnal gan Un Llais Cymru pwysleisiwyd pwysicrwydd mynychu'r cyrsiau yma gan un o'r aelodau yn enwedig yr aelodau newydd. Mae'r aelodau am adael i'r clerc wybod os ydynt yn dymuno rhoi eu henwau i lawr ar gyfer cwrs yn y dyfodol.

10. **Deddf Eiddo Cymdeithas yr Iaith –** Cadeirydd
    Cynnig yw hwn i CTN ddangos eu cefnogaeth i Deddf Eiddo Cymdeithas yr Iaith yn arbennig i ystyried Nod 1 a 2 o'r Ddeddf honno fel polisi'r Cyngor, h.y, (1) Hawl i gartrefu'n lleol a (2) Chynllunio ar gyfer anghenion lleol pan yn trafod cynlluniau adeiladu tai yn y dyfodol.
    Penderfyniad: cafwyd pleidlais ar y mater, pleidlais o blaid – 4, pleidlais yn erbyn 7.

11. **Arwydd mynwent Nefyn –** Carys Roberts
    Mae un o aelodau Nefyn yn awyddus i gael arwydd 'Mynwent Nefyn' wrth fynedfa'r fynwent. Nid oes arwydd ym mynwent Morfa Nefyn nac yn Edern felly pe bai arwydd ar gyfer Nefyn yn cael ei basio yna fe fydd yn rhaid trefnu bod un yn cael ei roi yn Morfa Nefyn ac Edern hefyd.
    Penderfyniad: oherwydd sefyllfa ariannol y Cyngor Tref y clerc i gael dyfynbris am arwydd i'r dair mynwent gan 3 cwmni lleol gyda logo CTN arnynt.

12. **Sticeri 'Dim baw ci' i biniau mynwent Nefyn –** Clerc
    Cais yw hwn am sticeri 'Dim baw ci' ar finiau sydd ym mynwent Nefyn yr un fath ag sydd wedi eu rhoi ym mynwent Morfa Nefyn.
    Penderfyniad: y clerc i archebu 9 sticer.
    Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Iwan Evans

13. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    Dim.

14. **Ceisidau am gyfraniad ariannol**
    1. **Cymdeithas Rieni a Ffrindiau Ysgol Edern**
       Gohiriwyd y mater yma er mwyn derbyn mwy o fanylion ac mae'r clerc wedi derbyn ebost yn egluro bod angen sied newydd arnynt, atodwyd llun a pris y sied.
       Penderfyniad: pasiwyd i dalu am y sied sef £1510.82.
       Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Mared Llywelyn Williams
    2. **Apêl Gisda 40**
       Gohiriwyd y mater yma hefyd er mwyn derbyn eu mantolen ariannol.
       Penderfyniad: anfon ebost atynt yn gofyn ar gyfer beth mae'r arian a beth yw balansau yn y banc ar hyn o bryd a egluro sefyllfa ariannol CTN.

CYNGOR TREF NEFYN

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/06/2025 am 7yh

**15. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

**Ceisiadau Diweddarach**

**C25/0398/42/LL** - Tŷ Gwyn, 2, Cliff Bungalows Y Lôn Gam, Nefyn - Cais llawn i ddymchwel annedd presennol (C5) a chodi annedd newydd (C5) yn ei le ynghŷd â gwaith cysylltiol.

Penderfynaid: Dim gwrthwynebiad

Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Carys Roberts

**16. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £1496.18 (taliad bacs)
- Nefyn Foods Ltd – rent Siop Siarad - £780.00
- HMRC – PAYE - £254.42
- Tyddyn Sachau – blodau Morfa - £49.99
- D M Parry – chweched taliad mynwent Edern, pumed taliad mynwent Nefyn a trydydd taliad mynwent Morfa Nefyn - £1740.00
- Tyddyn Sachau – blodau Nefyn - £29.00
- Ad-daliad bynting PPP i'r clerc - £42.45
- Alan Adams – trydydd taliad llwybrau & gwaith ychwanegol - £2205.00
- Contractio G I Owen Cyf – ychwanegu rêl i'r postiau a osodwyd gan Colin Jones Rock Engineering ar llwybr Benrallt Nefyn - £711.60
- Contractio G I Owen Cyf – gorffen llwybr y Cliffs sef torri drwadd i'r llwybr gwreiddiol a creu grisiau - £1000.80
- Contractio G I Owen Cyf – ail wynebu llwybr Penrallt o Nefyn i Bwlch Bridin a llwybr Bro Gwylwyr i'r Ddôl - £24093.60
- John Gwynfor Jones – angladd Vivienne Rees Jones a Geraint Elias Jones - £1150.00
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Mai - £150.22

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.

Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Catrin Roberts

**17. Taliadau wedi eu derbyn**

Dim.

**<u>Llwybrau CTN</u>**

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

CYNGOR TREF NEFYN

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/06/2025 am 7yh

Mae nifer o gwynion wedi eu derbyn ynglŷn â diffyg torri gwellt llwybrau a llecynnau CTN. Mae’r contractwr wedi bod yn gweld rhai o aelodau CTN i egluro ac ymddiheuro pam nad yw’r gwaith yma wedi bod yn cael ei wneud ar amser.
Penderfyniad: pasiwyd i anfon llythyr i’r contractwr yn dweud bod CTN yn dal yn bryderus ynglŷn â’r diffyg torri gwellt a’i fod yn sicrhau ei fod yn ateb negeseuon y clerc, fe fydd rhaid cadw llygaid ar y sefyllfa dros y misoedd nesaf.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Carys Roberts

Clerc: Pat Humphreys
Cae’r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com